# Byw trwy weddi

(ymddiriedaeth / ffyddlondeb / gweld cyfle)

Fyddwch chi'n gweddïo? Efallai byddwch yn gweddïo yn y gwasanaethau yn yr ysgol neu cyn cinio neu cyn mynd adref o'r ysgol. Fyddwch chi'n gweddïo pan fyddwch chi gartref? Cyn i chi fynd i'r gwely? Os byddwch chi'n mynd i gapel neu eglwys byddwch yn sicr o gael cyfle i weddïo yn ystod y gwasanaethau. Mae yna rai pobl sy'n byw bywyd o weddi. Meddyliwch am y mynaich a'r lleianod sy'n byw eu bywydau o gwmpas gweddi. Maen nhw'n credu bod Duw wedi'u galw i wneud gwaith arbennig ac wrth weddïo maen nhw'n teimlo bod Duw yn eu nerthu a'u cynorthwyo.

Gŵr oedd wedi sylfaenu'i fywyd ar weddi oedd George Müller. Credai'n gryf fod Duw yn ei alw i agor cartref i blant amddifad yn ninas Bryste. Meddai wrth ffrind iddo un diwrnod, "Mae'r plant bach yma ar y strydoedd ddydd a nos. Mae rhai ohonyn nhw'n fudr a charpiog a dyna lle maen nhw'n begera yn yr un lle bob dydd. Mae Duw yn fy ngalw i wneud rhywbeth i'w helpu."

Unig ateb ei ffrind oedd, "A be fedri di, ar dy ben dy hun, wneud dros y plant yma? Nid un plentyn sydd yma ond cannoedd ar gannoedd. Mae'n well i ti anghofio am y peth y munud yma."

Ond nid un i ddigalonni oedd Müller. Y noson honno, fel pob noson, aeth ar ei liniau cyn mynd i gysgu. Gofynnodd i Dduw, os ei fwriad oedd iddo agor cartref i blant amddifad, a fyddai'n barod i'w helpu. "Nid oes gennyf geiniog goch, sut felly ydw i'n mynd i agor cartref i'r plant bach yma?" meddai.

Bu'n gweddïo am ddyddiau a nosweithiau. Roedd yr arian yn dechrau llifo. Roedd pobl ariannog yr ardal wedi clywed am fenter Müller ac roedd y stori wedi lledaenu fel tân gwyllt drwy'r ddinas i gyd.

Doedd Müller ddim yn mynd i allu gwneud y gwaith i gyd ei hun. Roedd yn rhaid cael pobl i'w helpu. Dechreuodd pobl y ddinas guro wrth ei ddrws, "Clywed eich bod yn chwilio am bobl i helpu yn y cartref? Rydw i'n barod i weithio i chi. Mi wna i unrhyw beth fyddwch chi ei angen." Un bore daeth gŵr a gwraig at y drws, "Mi rydan ni'n barod i weithio am ddim i chi am y flwyddyn gyntaf." Doedd Müller ddim yn gallu coelio'i glustiau.

Agorwyd y cartref ymhen tri mis. Roedd ganddo ddigon o

arian a digon o bobl oedd yn barod i'w helpu. Ond beth am y plant? Sut oedd rhoi gwybod iddyn nhw fod cartref, bwyd a dillad ar gael iddyn nhw? Y noson honno gweddïodd Müller a'r bore canlynol daeth bachgen bach carpiog at y drws. Agorwyd y drws led y pen i'w groesawu.

Ymhen dim amser roedd y cartref yn orlawn. Bu raid agor mwy o gartrefi ar hyd a lled y ddinas. Un diwrnod daeth Spurgeon, y pregethwr adnabyddus, i Fryste i bregethu ac i godi arian ar gyfer taith bregethu. Y noson honno roedd wedi casglu £300. Clywodd am waith Müller ac aeth yn syth i'w weld. "Rwyf wedi casglu £300 er mwyn i mi gael mynd ar daith bregethu," meddai Spurgeon wrtho, "ond ar ôl gweld y gwaith rhagorol rydych chi'n ei wneud yn y ddinas hon rwyf am roi'r cwbl i chi, George Müller." "Wel dyna ryfedd," meddai Müller, "roeddwn i'n gweddïo neithiwr ar i Dduw fy helpu i gael £300 ar gyfer gwaith arbennig yn un o'r cartrefi. A dyma fo wedi ateb fy ngweddi y tro hwn eto."

Adnod: "Ac wrth weddïo peidiwch â phentyrru geiriau." Mathew 6:7

Gweddi: Helpa fi i gredu, O Dduw, fod popeth yn bosibl i'r rhai sy'n credu ynot ti. Amen.

Trafod:

- Fedrwch chi feddwl am wahanol fathau o weddïau, e.e. gweddi i ddiolch, gweddi i ofyn.
- Ydych chi'n credu fod Duw yn ateb gweddïau?